**Dyddiad cyhoeddi** Hydref 2010

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

***National Institute for Health and Clinical Excellence***

# Biopsi o'r prostad drwy'r perinëwm a gaiff ei lywio gan dempled

*Mae arweiniad Techlechyd NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio biopsi o'r prostad drwy'r perinëwm a gaiff ei lywio gan dempled yn y GIG. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio cyflyrau prostad na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 5.

## Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Mae tystiolaeth y gall rhai dynion yr amheuir bod ganddynt ganser y prostad sydd wedi cael canlyniadau negyddol neu amhendant o ddulliau biopsi eraill gael diagnosis mwy effeithiol o ganser y prostad drwy ddefnyddio'r driniaeth hon. Nid oes pryderon mawr am ddiogelwch. Felly, gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn ar gyfer dynion o dan yr amgylchiadau penodol hyn cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Ni chanfuwyd tystiolaeth i gefnogi defnyddio'r driniaeth hon i edrych am union safle a graddau canser y prostad (mapio) er mwyn llywio triniaeth lai ymwthiol neu ar gyfer profion rheolaidd (goruchwyliaeth weithredol) ar ôl triniaeth lai ymwthiol. Os yw meddyg am ddefnyddio'r driniaeth hon o dan yr amgylchiadau hyn, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda mae'n gweithio ar gyfer goruchwyliaeth weithredol neu fapio. Dylai hyn ddigwydd cyn i’r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro’r hyn sy’n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Mae NICE wedi annog gwaith ymchwil pellach i'r driniaeth hon.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer biopsi o'r prostad.*
*Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau eraill sydd ar gael.*

## Biopsi o'r prostad drwy'r perinëwm a gaiff ei lywio gan dempled

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'biopsi templed o'r prostad drwy'r perinëwm'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae'r prostad yn chwarren fach yn agos at bledren dyn. Os amheuir canser y prostad, efallai y bydd angen biopsi o'r prostad ar y claf. Mae hyn yn cynnwys cymryd samplau bach o chwarren y prostad a'u harchwilio am ganser o dan ficrosgop. Fel arfer gwneir hyn gan ddefnyddio nodwydd a gaiff ei throsglwyddo drwy stiliwr yn y rhefr (pen ôl), triniaeth a elwir yn fiopsi tawsrefrol.

Mae biopsi templed o'r prostad drwy'r perinëwm yn cynnwys defnyddio grid (neu dempled) i osod sawl nodwydd fach drwy'r croen yn yr ardal rhwng y sgrotwm a'r anws (y perinëwm) i mewn i chwarren y prostad er mwyn cael sawl sampl o feinwe i'w profi. Caiff y llawdriniaeth ei chyflawni gyda'r claf o dan anesthetig lleol neu gyffredinol.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio’n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG ar ddynion yr amheuir bod ganddynt ganser y prostad ac sydd wedi cael canlyniadau negyddol neu amhendant o ddulliau biopsi eraill. Os yw eich meddyg yn credu bod biopsi templed drwy'r perinëwm yn opsiwn addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth i chi ar gyfer mapio i lywio triniaeth lai ymwthiol neu ar gyfer goruchwyliaeth weithredol dylai ddweud wrthych fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a’r risgiau’n ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi, ac egluro'r ansicrwydd ynghylch defnyddio'r driniaeth yn yr amgylchiadau hyn. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

## Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE isod. Edrychodd NICE ar wyth astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Nododd astudiaeth y canfuwyd canser mewn 53 allan o 126 o ddynion a gafodd fiopsi templed drwy'r perinëwm a 58 allan o 120 o ddynion a gafodd fiopsi trawsrefrol. Canfu'r astudiaeth hefyd mai prin oedd y gwahaniaeth rhwng cyfraddau canfod canser y ddau brawf pan archwiliwyd y canlyniadau yn erbyn profion gwaed yn dangos a oedd problemau prostad yn debygol (profion antigen penodol i'r brostad neu PSA). Canfu astudiaeth o 135 o gleifion fod canlyniadau biopsi templed drwy'r perinëwm yn fwy cywir na biopsi trawsrefrol.

Nododd astudiaeth o 373 o ddynion a gafodd fiopsi templed drwy'r perinëwm y canfuwyd canser mewn 60 allan o 79 o ddynion nad oedd

wedi cael biopsi o'r blaen, a 22 allan o 64 o ddynion a oedd eisoes wedi cael tri biopsi negyddol neu fwy o'r blaen. Canfu astudiaeth o 747 o ddynion a gafodd fiopsi trawsrefrol ganser mewn 291 o ddynion.

Ni chafwyd tystiolaeth i ddangos bod y driniaeth hon yn effeithiol o ran mapio i lywio triniaeth lai ymwthiol neu o ran goruchwyliaeth weithredol.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r ffactorau llwyddiant yw cyfradd canfod canser y prostad a chanfod union safle tiwmorau yn y prostad yn well.

## Risgiau a phroblemau posibl

Ni chanfuwyd gwaed yn y semen mewn unrhyw glaf allan o 120 ar ôl biopsi trawsrefrol a chanfuwyd gwaed yn y semen mewn dau glaf allan 126 ar ôl biopsi templed drwy'r perinëwm yn yr astudiaeth o 246 o ddynion. Mewn astudiaeth wahanol, cafodd un allan o 747 o ddynion a gafodd fiopsi templed drwy'r perinëwm haint.

Gwelwyd anhawster pasio dŵr mewn 114 allan o 1631 o ddynion mewn pedair astudiaeth. Nododd un o'r astudiaethau hyn fod angen defnyddio cathetr wrinol ar 77 o ddynion ar ôl gadael yr ysbyty a nododd astudiaeth arall fod angen cathetr dros nos ar chwech o ddynion.

Canfu'r astudiaeth o 246 o ddynion y cafodd dau allan o 120 o ddynion dymheredd uchel ar ôl biopsi trawsrefrol o gymharu â dim un allan o 126 o ddynion ar ôl biopsi templed drwy'r perinëwm.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod gwenwyn gwaed, gwaedu, haint y llwybrau wrinol a gwaed yn yr wrin ymysg y problemau posibl.

## Rhagor o wybodaeth am ganser y prostad

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn PALS fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar ganser y prostad, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

### NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon am 'fiopsi templed o'r prostad drwy'r perinëwm'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG237*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8248-6
N2372 1P October 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.